# MyView wedi cyrraedd!



## Manteision MyView

### Bydd Dangosfwrdd MyView yn caniatáu i chi wneud y canlynol:


- Gweld eich slipiau cyflog ar-lein
- Golygu eich holl fanylion personol e.e. cofnodi newid cyfeiriad
- Gwneud cais am wyliau
- Cyflwyno hawliadau am dreuliau, goramser neu ymateb i alwad
- Gweld eich holl ffurflenni blaenorol
- Ymdrin yn gyflym ag awdurdodiadau arferol.

### Bydd MyView o fudd i ni gyd oherwydd:

- Bydd yn lleihau ein costau papur a phostio.
- Bydd yn arbed ein hamser gan fod popeth ar gael mewn un lle.
- Gallwn ei ddefnyddio yn unrhyw le os oes gennym ddyfais symudol.
- Bydd yn ein galluogi ni i fod yn fwy annibynnol ac i reoli'n gwaith.

### MyView – Mewngofnodi

Eich enw defnyddiwr yw eich rhif gweithiwr. **Eich cyfrinair mewngofnodi cyntaf yw eich rhif gweithiwr hefyd.** Bydd gofyn i chi newid eich cyfrinair ar unwaith. Bydd gofyn i chi hefyd nodi eich **dyddiad geni** a **chyfenw eich mam cyn priodi**. Gofynnir am un o'r rhain fel cwestiwn diogelwch bob tro y byddwch yn mewngofnodi.




Gallwch hefyd gysylltu â ni am gymorth drwy anfon e-bost at **resourcelink@sirgar.gov.uk**


Ewch i: **einpobl.sirgar.llyw.cymru**

## Ddim yn gwybod llawer am dechnoleg?

**PEIDIWCH Â PHOENI,** cewch gymorth a chefnogaeth - bydd eich hyrwyddwyr digidol, rheolwyr a staff adnoddau dynol wrth law i'ch arwain drwy'r broses. Rydym eisoes yn ei ddefnyddio.

### Sut ydw i'n mewngofnodi?

Ar hafan **sirgar.llyw.cymru** mae dolen ar waelod y dudalen a fydd yn mynd â chi i'n mewnrwyd.








Cliciwch ar yr opsiwn **MyView** ar gyfer y sgrîn fewngofnodi.

Mae eich hyrwyddwyr digidol a'ch rheolwyr bob amser ar gael i'ch helpu a dylent fod yn bwynt cyswllt cyntaf i chi. Mae'r blwch MyView mawr ar y chwith yno i'ch helpu hefyd.




Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council